

The Open
University

50
YEARS

OpenDoor

Y cylchgrawn ar gyfer cefnogwyr a chyfeillion Y Brifysgol Agored

Y TU MEWN I'CH RHIFYN OPEN DOOR

3 Dathlu hanner canmlwyddiant

Edrych yn ôl dros y flwyddyn wych o dathlu ein Hanner Canmlwyddiant hyd yma.

4 Dyfodol Dysgu

Academyddion Y Brifysgol Agored yn rhagfynegi sut beth fydd dysgu yn 2070.

6 Mynd i'r afael â'r argyfwng dysgu byd eang

Y ffordd y mae'r Brifysgol Agored yn cydweithio ag athrawon ledled y byd.

8 Taith i'r lleuad

Y wybodaeth ddiweddaraf gyffrous am y ffordd y mae gwyddonwyr Y Brifysgol Agored yn cefnogi teithiau arloesol gan NASA.

9 Ariannu torfol


Y ffordd y mae cefnogwyr yn gwneud gwahaniaeth i fyfyrwyr.

10 Cronfa Ysgoloriaethau Hanner Canmlwyddiant

Y wybodaeth ddiweddaraf am ysgoloriaethau a'r Goeden Ddysgu wych.

12 Yr Ardd Waddol

Cofio'r rhoddwyr gwych y mae eu haelioni yn galluogi eraill i fanteisio ar rodd addysg.



Mae ein clawr yn dangos rhwydwaith niwtral o gelloedd yr ymennydd yn gweithio. Wyddech chi fod yr ymennydd dynol yn cynnwys tua 100 biliwn o niwronau?

Rydym yn gobeithio y bydd llawer o bethau o ddi-ddordeb i chi yn y rhifyn hwn – gan gynnwys y cyfle i gyfrannu at ein gwaith ynghylch Dyfodol Dysgu (ar dudalen 4).

CROESO A DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH



Dros y 50 mlynedd diwethaf mae eich Prifysgol wedi bod yn newid bywydau ac, yn syml, ni fyddwn wedi gallu gwneud hynny heboch chi! Diolch o galon i chi am eich cymorth parhaus.

Er bod y rhifyn diwethaf o Open Door yn myfyrio ar ein hanes a'n treftadaeth, rydym yn edrych yn gadarn i'r dyfodol ac yn dychymygu'r hyn y bydd y 50 mlynedd nesaf yn eu cynnig. Yn eich barn chi, sut y bydd dysgu wedi newid erbyn 2070? Gallwch weld pa ragfynegiadau cyffrous y mae ein hacademyddion wedi'u gwneud ar gyfer Dyfodol Dysgu – a rhannu eich syniadau eich hun – ar dudalen 4.

Drwy'r rhifyn hwn byddwch hefyd yn dysgu mwy am y bobl a'r prosiectau diweddaraf rydych yn eu cefnogi drwy eich haelioni parhaus. Eich caredigrwydd sy'n ein galluogi i rymuso gofalwyr a chyn-filwyr anabl i wireddu eu potensial a thrawsnewid eu bywydau drwy ddysgu.

Ar ran eich Prifysgol a'n myfyrwyr presennol a'n cyn-fyfyrwyr, hoffwn ddiolch o waelod calon i chi. Rydym wedi mwynhau 50 mlynedd wych hyd yma ac, ochr yn ochr â chi, rydym yn edrych ymlaen at y 50 mlynedd nesaf a thu hwnt!

Karen Hart
Dirprwy Gyfarwyddwr Datblygiad: Ymgysylltu â Chyn-fyfyrwyr

DIOLCH AM FOD YN RHAN O'R STORI

Mae eleni wedi bod yn llawn dathliadau, cacennau pen-blwydd a gwerthfawrogiad enfawr o holl deulu'r Brifysgol Agored sydd wedi chwarae rhan bwysig ym mhym degawd cyntaf Y Brifysgol Agored.

Diolch am fod yn rhan o stori'r Brifysgol Agored - yn syml, ni fyddai'r Brifysgol Agored yn ddim heboch chi! Dyma drosolwg sydyn o'r dathliadau hanner canmlwyddiant hyd yma...

“

50 mlynedd yn ddiweddarach, mae'r Brifysgol Agored yn bwysicach heddiw nag erioed o'r blaen - gan gefnogi miliynau o fyfyrwyr i fod yn chwilfrydig, i greu ynddynt eu hunain a datblygu. Ni allaf feddwl am sefydliad pwysicach i'w gefnogi'n llwyr.”

Martha Lane Fox
Canghellor Y Brifysgol Agored

”



“

Chi yw un o ryfeddodau'r byd academiaidd ac rydych yn cynnig gobaith ar gyfer dyfodol. Llongyfarchiadau ar eich pen-blwydd!”

Sir David Attenborough
Gradedig er Anrhydedd

”



Gwenwch! Dyma lun o'r Fonesig Evelyn Glennie, a gafodd radd er anrhydedd, gyda Cherddorfa'r Brifysgol Agored cyn ei chyngerdd Hanner Canmlwyddiant gwych.

Pen-blwydd hapus i'r Brifysgol Agored! Is-ganghellor Mary Kellett, Canghellor Y Brifysgol Agored Martha Lane Fox a Syr David Attenborough yn dathlu Hanner Canmlwyddiant Y Brifysgol Agored mewn cinio gala arbennig.

“

Hoffwn ddimuno pen-blwydd hapus iawn i'r Brifysgol Agored yn 50 oed. Ennill fy ngradd Hanes gyda'r Brifysgol Agored wrth astudio pan oeddwn yn teithio rhwng gigs yw un o'm cyflawniadau mwyaf hyd yma. Rwy'n falch iawn o fod yn rhan o deulu'r Brifysgol Agored!”

Joan Armatrading
Un o Gyn-fyfyrwyr Y Brifysgol Agored a gafodd radd er anrhydedd

”



Cacen pen-blwydd Y Brifysgol Agored yn 50 oed a grëwyd gan Liz Fox, un o raddedigion Y Brifysgol Agored.

50 mlynedd o falchder!
Staff a myfyrwyr Y Brifysgol Agored yn dathlu mewn digwyddiad Pride yn yr Alban, un o'r nifer fawr o ddigwyddiadau rydym yn eu cefnogi.



Ymunwch â ni mewn digwyddiad

Mae sawl digwyddiad yn cael eu cynnal o hyd drwy gydol y flwyddyn, a gallwch wyllo llawer ohonynt ar-lein o ble bynnag rydych chi yn y byd.



Gweld y digwyddiadau diweddaraf
50.open.ac.uk/events



14 Tachwedd: Darlithoedd Agoriadol 'Discovering New Planets'

Ymunwch â ni ar gyfer darlith ddwbl ym Milton Keynes lle y bydd David Rothery, Athro y Gwyddorau Daeare Planedol, yn cyflwyno dryswch y blaned Mercher, a Carole Haswell, Athro Astroffiseg, yn ystyried cyfleoedd ecsoblanedau.



Gwylwch ar-lein
50.open.ac.uk/events



DYSGWCH FWY AM EIN HANES A RHANNWCH EICH SYNIADAU

50.open.ac.uk

DYFODOL DYSGU 2070

Ers ei sefydlu yn 1969, mae'r Brifysgol Agored wedi newid wyneb addysg yn sylweddol. Dechreuodd fel breuddwyd y Prif Weinidog Harold Wilson i greu "Prifysgol yr Awyr" a bellach, Y Brifysgol Agored yw'r sefydliad addysgol mwyaf yn y DU ac mae wedi grymuso dros ddwy filiwn o fyfyrwyr mewn 157 o wledydd ledled y byd i drawsnewid eu bywydau drwy addysg.

Gyda hanes o arloesedd, mae rhai o'r meddyliau mwyaf disglair yn y Brifysgol wedi rhagfynegi sut beth fydd dyfodol addysg ymhen 50 mlynedd. Mae'r myfyrdodau gan arbenigwyr blaenllaw ym meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg, ac er na allant fod yn sicr o'r hyn y bydd y dyfodol yn ei gynnig, mae'r cynnydd y maent yn ei ragweld wir yn arloesol. Dyma ddeddoliad o ragfynegiadau academyddion Y Brifysgol Agored.



Monica Grady

Rhith-wirionedd 2.0

Monica Grady

Athro y Gwyddorau Planedol a'r Gofod

Rwyf o'r farn mai rhith-wirionedd yw'r ffordd ymlaen, ond fel profiad mwy ymdrochol o lawer nag ydyw ar hyn o bryd. Bydd angen i'n myfyrwyr yn y dyfodol deimlo pwysau'r belen fetel a'r bluen maent am eu gollwng, clywed hisian a chlecian dadwefriad trydanol ac aroglir cemegau sy'n gosod plât datblygu pelydr X.

Ni fydd yn ddigon edrych ar luniau neu wyllo fideos – mae hynny yn brofiad rhy oddefol.

Byddwn yn datblygu dulliau lle y mae dysgu o gyffwrdd a blasu ac aroglir yr un mor bwysig â gweld a chlywed.

Byddwn yn ehangu ein gorwelion – y tu hwnt i ffiniau'r Ddaear – fel y gallwn fanteisio ar amgylchedd orbit isel y Ddaear lle nad oes unrhyw ddisgyrchiant a disgyrchiant isel y lleuad a'u defnyddio fel labordai ychwanegol. Efallai na fyddwn yn 'Brifysgol yr Awyr', na hyd yn oed yn 'Brifysgol y Ddaear', ond bydd y 50 mlynedd nesaf yn cynnig cyfle gwych i fod yn 'Brifysgol y Gofod'.



**DARLLEN YR
ADRODDIAD LLAWN**

**50.open.ac.uk
/futureoflearning**

Yr Hyfforddwr Deallusrwydd Artiffisial

John Domingue

Cyfarwyddwr, Athrofa Cyfryngau Gwybodaeth

Ymhen 10 i 20 mlynedd, rwyf o'r farn y bydd y cysyniad o 'hunan-hacio' yn dod i'r amlwg. Fel yr amlinellir gan yr hanesydd o Israel, Yuval Harari, ar ryw adeg mae'n gwbl ddichonadwy y bydd algorithmau Deallusrwydd Artiffisial yn ein hadnabod ni'n well nag ydym yn ein hadnabod ein hunain. Gyda'r symiau enfawr o ddata a gaiff eu hamlyncu a'u dadansoddi, bydd systemau Deallusrwydd Artiffisial yn meddu ar ddealltwriaeth o'n cymhelliant a'r sbardunau ar gyfer newid yn ein cyflwr emosiynol.

Bydd yn bosibl cael hyfforddwr dysgu Deallusrwydd Artiffisial a fydd yn anfon sbardunau, pytiau o wybodaeth a gwobrau atoch er mwyn eich annog i astudio. Gallai hyn gynnwys hysbysebion isganfyddol o fewn ffrwd gymdeithasol, neu ganllaw teledu ar-lein, yn nodi bod aseiniad neu ganmoliaeth, neu rodd ar ôl cyfnod o astudio arbennig o anodd hyd yn oed, yn aros amdanoch. Yn yr un ffordd ag y dangoswyd bod systemau awtomataidd wedi dylanwadu ar etholiadau diweddar ledled y byd, yn y dyfodol, bydd yn bosibl yn dechnegol i systemau Deallusrwydd Artiffisial ddylanwadu ar eich ymddygiad astudio ac, os ydych yn dymuno, gallai hynny ddigwydd heb i chi fod yn ymwybodol ohono.

Dysgu rhithwir gan ddefnyddio pob synnwyr

Shailey Minocha

Athro yn y Gyfadran Wyddoniaeth, Technoleg,
Peirianneg a Mathemateg (STEM)

Bydd rôl technolegau ar-lein ym maes dysgu ac addysgu yn gymysgedd o lyfrau a darpariaeth wyneb yn wyneb mewn mannau ffisegol a rhithwir. Hyd yn oed mewn amgylcheddau addysgol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer dysgu unigol, bydd rôl rhyngweithio wyneb yn wyneb yn y byd ffisegol ac mewn mannau rhithwir gydag addysgwyr, cymheiriaid, mentoriaid ac arbenigwyr pwnc yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, yn bwysig ar gyfer cymdeithasoli, rhannu gwybodaeth a syniadau, a llunio gwybodaeth ar y cyd.

Bydd y rhyngweithio wyneb yn wyneb rhwng y mannau dysgu ffisegol a rhithwir yn ddi-dor: bydd myfyrwr ac addysgwyr yn galw i mewn ac allan o'r mannau hyn fel rhith ffurfiau, neu fel eu hunain yn y byd go iawn. Yn ogystal â hyn, bydd amgylcheddau rhith-wirionedd yn cael eu defnyddio'n gynyddol ar gyfer dysgu unigol a dysgu ar y cyd: megis hyfforddiant drwy efelychiadau, dysgu gweithdrefnol ac ar gyfer ymarfer senarios peryglus sy'n anodd neu weithiau'n amhosibl i'w llunio neu eu hefelychu mewn bywyd go iawn, ar gyfer teithiau rhithwir a chyfarfodydd a chynadledau.



Mae'r amrywiaeth o ragfynegiadau gan athrawon ym mhob rhan o'n sefydliad yn aruthrol. Mae'n dangos pa mor wahanol yw natur dysgu mewn gwahanol ddisgyblaethau, amgylcheddau a hyd yn oed gwledydd.

Rydym yn falch iawn o allu cefnogi cymaint o fyfyrwyr o gymaint o amgylchiadau gwahanol i ddysgu a chyflawni - sydd ond yn bosibl o ganlyniad i'n dull arloesol o addysgu. Bydd Y Brifysgol Agored yn parhau i fod yn gynhwysol ac yn arloesol am y 50 mlynedd nesaf a thu hwnt - lle bynnag y bydd hynny yn ein harwain.

Mary Kellett

Is-ganghellor, Y Brifysgol Agored



Byddwch yn rhan o'r sgwrs

Nawr eich bod wedi clywed gan ein hacademyddion, mae'n amser i chi leisio eich barn! Rydym yn rhoi cyfle unigryw i chi gyfrannu at ein rhifyn nesaf o Open Door drwy rannu eich rhagfynegiadau.

Dywedwch wrthym sut beth fydd dysgu dros y 50 mlynedd nesaf yn eich barn chi a byddwn yn cynnwys ein hoff ragfynegiadau.



Defnyddiwch y ffurflen
amgaeedig neu e-bostiwrch

alumni@open.ac.uk

MYND I'R AFAEL Â'R ARGYFWNG DYSGU BYD EANG

Er bod nifer y plant sydd bellach yn mynd i'r ysgol wedi cynyddu'n fawr, mae mwy na 250 miliwn blant ledled y byd nad ydynt yn mynychu'r ysgol, a miliynau lawer ohonynt yn methu â dysgu'r hanfodion erbyn iddynt adael. Mae gwaith ymchwili* diweddar yn amcangyfrif bod cymaint â 90% o blant mewn gwledydd incwm isel yn gadael yr ysgol gynradd yn methu â darllen nac ysgrifennu. Cyfeiriwyd at y sefyllfa hon fel yr argyfwng dysgu.



Mae Matthew Foster, Cyfarwyddwr Swyddfa Datblygu Rhyngwladol Y Brifysgol Agored, yn esbonio rhai o'r ffyrdd arloesol y mae'r Brifysgol Agored yn helpu athrawon ledled y byd i fynd i'r afael â'r argyfwng dysgu.

Arloesi dysgu agored ac o bell

Allwch chi ddychmygu dysgu mwy na 100 o blant mewn dosbarth heb lawer o adnoddau, os o gwbl? Dyma'r realiti ar gyfer miliynau lawer o athrawon ledled y byd. Er mwyn eu helpu i addysgu'n effeithiol, rydym yn cydweithio i greu adnoddau dysgu ar-lein o ansawdd uchel, gan gynnwys astudiaethau achos ymarferol a fideos cyfarwyddol y gellir cael gafael arnynt yn hawdd ac sy'n hwylus i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.

Mae un enghraifft o hyn yn cynnwys y prosiect 'English In Action' yn Bangladesh a oedd yn cefnogi pob athro Saesneg yn y wlad drwy ddosbarthu adnoddau astudio ar gardiau SD (er mwyn osgoi costau data drud) y gallent eu gosod yn eu ffonau eu hunain am gost o US\$2 fesul athro. Rydym hefyd wedi gwneud defnydd arloesol o Gyrsiau Ar-lein Enfawr Agored (MOOCau) ledled Affrica er mwyn helpu miloedd o athrawon i ddysgu a gweithio gyda'i gilydd i oresgyn yr heriau ymarferol maent yn eu hwynebu.

Sicrhau bod neb yn cael ei hepgor

Mae'r argyfwng dysgu yn effeithio ar ferched fwyaf ac, er mwyn cefnogi merched sydd wedi rhoi'r gorau i'r ysgol, rydym yn cynnal dosbarthiadau dysgu cyfunol yn Zimbabwe er mwyn eu helpu i ddychwelyd a pharhau â'u haddysg. Rydym hefyd wedi datblygu llwybrau newydd i addysgu ar gyfer menywod mewn ardaloedd gwledig o Sierra Leone a Malawi, sy'n galluogi cymunedau i ddatblygu eu hathrawon eu hunain mewn ardaloedd lle mae'r prinder athrawon ar ei waethaf.

Un o'r problemau allweddol eraill yw bod ffoaduriaid ledled y byd yn aml yn cael eu hallgáu o addysgu ac yn sylweddoli na chaiff eu cymwysterau presennol eu hystyried yn ddilys yn eu lleoliadau newydd. Mae ein polisi mynediad agored yn chwalu'r rhwystr hwn ac yn dangos pa mor hanfodol ydyw bod pawb yn gallu manteisio ar ddulliau agored a hyblyg o astudio.

Tair ffordd o newid y dyfodol

Fel sefydliad sy'n arwain y blaen ym maes dysgu agored ac o bell, rydym yn canolbwyntio ar dair strategaeth bwysig sy'n gallu ein helpu i barhau i fynd i'r afael â'r argyfwng dysgu dros y blynyddoedd sydd i ddod.

- 1 Byddwn yn gwneud mwy i ddylanwadu**
Er bod yr adnoddau addysgol rydym yn eu datblygu ar gael yn agored, mae angen i ni weithio'n galetach i adeiladu achos i'w defnyddio drwy arddangos llwyddiannau yn y gorffennol. Mewn sawl rhan o'r byd mae gan ddysgu agored a dysgu o bell enw gwael – mae hyn yn aml o ganlyniad i ddarpariaeth o ansawdd gwael ac mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei newid.
- 2 Byddwn yn gweithio'n agosach â phrifysgolion eraill**
Mewn llawer o'r gwledydd â chyflawniad addysgol isel, mae bwllch enfawr mewn darpariaeth addysg rhwng addysg uwchradd a phrifysgolion, gyda chanran fach iawn o fyfyrwyr yn cyflawni addysg uwch. Byddwn yn gweithio gyda'r 60+ o brifysgolion dysgu agored eraill o bob cwr o'r byd i lenwi'r bwllch hwn a darparu cyrsiau pontio hyblyg a hygyrch iawn i fynd â dysgwyr o addysg uwchradd i gyflogaeth, hunangyflogaeth neu addysg bellach.
- 3 Byddwn yn canolbwyntio ar lenwi'r bylchau mewn sgiliau hanfodol**
Mae prinder enfawr o nysys a gweithwyr iechyd rheng flaen yn fyd-eand, gyda Sefydliad Iechyd y Byd yn rhagweld y bydd prinder o 13 miliwn o weithwyr iechyd erbyn 2035. Dim ond drwy ddefnyddio dysgu agored a dysgu o bell y gellir goresgyn her o'r maint hwn.

Edrych i'r dyfodol

Fel rhan o'n cymuned werthfawr iawn o gyn-fyfyrwyr a chefnogwyr, rwy'n gobeithio y byddwch yn cydnabod gwerth allweddol addysgeg Y Brifysgol Agored sy'n seiliedig ar waith. Mae hyn yn galluogi dysgwyr o bob cwr o'r byd i ddatblygu gwybodaeth drwy ei defnyddio'n ymarferol a thrwy weithio gydag eraill yn hytrach nag astudio ar eu pen eu hunain. Mae cymaint i'w wneud o hyd er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng dysgu ac mae angen cael nifer o drafodaethau ar fuddsoddiad parhaus gan y llywodraeth ym maes addysg. Fodd bynnag, rydym yn ymrwymedig i wneud popeth a allwn i sicrhau bod addysg yn parhau i fod yn agored i bawb –

i bob myfyriwr, ni waeth ble yn y byd y mae'n byw na pha rwystrau y gallai fod yn ei wynebu. Dyma fu ein nod ar gyfer y 50 mlynedd diwethaf a gyda'r heriau sydd o'n blaenau, mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen.




**DYSGWCH FWY AM
BROSIECTAU DATBLYGU
RHYNGWLADOL Y
BRIFYSGOL AGORED**

www.open.ac.uk/ido

Mae 'English in Action' (EIA) yn galluogi miliynau o bobl ledled Bangladesh i wella eu Saesneg fel llwybr a fydd yn eu harwain allan o dloti ac i mewn i'r byd gwaith. Mae athrawon yn defnyddio ffôn syml, cost isel i chwarae clipiau sain o Saesneg llafar yn eu hystafelloedd dosbarth. Mae cyfranogiad rhagweithiol gan randdeiliaid llywodraeth leol a chenedlaethol yn ysgogi cynaliadwyedd.





PARTNERIAID Y BRIFYSGOL AGORED YN CYDWEITHIO Â NASA AR GYFER TAITH I'R LLEUAD

Mae'n bleser gennym gyhoeddi fod gwyddonwyr o'r Brifysgol Agored yn cefnogi un o ymgyrchoedd arloesol NASA i drefnu taith arall i'r Lleuad.

Yn y pen draw, gallai'r ymgyrchoedd newydd hyn yn yr UD, ynghyd ag eraill sy'n cynnwys Y Brifysgol Agored, arwain y ffordd i'r bobl dynol nesaf deithio i'r Lleuad. Mae'n enghraifft wych o waith ymchwil arloesol ar y Lleuad a wnaed gan academyddion Y Brifysgol Agored, sy'n cynnwys dulliau ymchwilio a allai helpu i adeiladu cynefinoedd yn y dyfodol.

Mae'r Brifysgol Agored yn cydweithio â 'NASA Goddard Spaceflight Centre' (ar y cyd â'r Asiantaeth Ofod Ewropeaidd) i ddatblygu offeryn o'r enw Sbectomedr Más i Ddal Ionau PROSPECT (PITMS) i fonitro'r

atmosffer tenau iawn ger arwyneb y Lleuad.

Caiff yr offeryn ei gludo i'r Lleuad yn 2021 gan laniwr a ddarperir yn fasnachol, o dan raglen Artemis NASA, a gallai ein helpu i astudio ymddygiad dynamig dŵr ar y Lleuad heddiw.



RHAGOR O WYBODAETH

www.open.ac.uk/research/news/



MYFYRWYR Y BRIFYSGOL AGORED YN MYND AMDANI

Yn dilyn apêl ariannu torfol lwyddiannus a gododd dros £13,000, cafodd Tîm Myfyrwyr Roboteg Planedol ei dderbyn i gystadlu yng Nghwpan Spaceport America ym Mecsico Newydd; sef y digwyddiad rocedol colegaid mwyaf yn y byd, gyda mwy na 121 o dimau yn cystadlu.

Lansiodd y myfyrwyr, dan arweiniad Rob Adlard, Peiriannydd Systemau Arweiniol, eu roced 4m o hyd i uchder o 3km, gan gyrraedd cyflymderau o 700 mya! Roedd y roced yn cynnwys nifer o arbrofion gwyddonol.

Yn y llun uchod o'r chwith i'r dde:
Rob Adlard, Tom Buggiey, Sarah Latham a Dave Harris.

"Roedd yn brofiad anhygoel," dywedodd Sarah Latham, myfyriwr Mathemateg a Ffiseg Y Brifysgol Agored. "Er nad oedd gennym lawer o brofiad ac roedd gennym lawer i'w ddysgu, gwnaethom yn dda, gan ennill sgoriau uwch na phrifysgolion blaenllaw megis Yale, Cornell a Stanford."

"Roedd cyd-destun y peth yn anhygoel," esboniodd Dave Harris, myfyriwr Peirianeg. "Roedd gweithio yn yr anialwch yn anodd. Ar ddiwrnod y lansiad, gwnaethom weithio o 3am am dair awr yn y tywyllwch nes i'r haul godi, a gwnaethom osod y roced ar y pad lansio o'r diwedd am 1pm." Cafodd y tîm gymorth gan fwy na 100 o roddwyr a rhodd o £6,750 gan DesignSpark – RS Components.

RHAGOR O WYBODAETH
alumni.open.ac.uk

TÎM OUFO YN DERBYN YR HER

Mae OUFO yn un o dimau myfyrwyr peirianeg Y Brifysgol Agored sydd â'r nod o ennill profiad gyda phrosiectau go iawn sy'n ymwneud â'r sector awyrfod. Mae'r tîm yn awyddus i ennill profiad hollbwysig er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa well fel graddedigion i dderbyn yr heriau sy'n codi wrth ymgymryd â phrosiectau yn y gweithle. Yn ogystal â'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen, byddant hefyd yn datblygu eu sgiliau gweithio mewn tîm, rheoli amser, rheoli prosiect, cyllidebu a chyflwyno.

Mae'r tîm yn bwriadu cofrestru ar gyfer Her UAS Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol (IMechE) yn 2020, sef cystadleuaeth peirianeg genedlaethol a gynhelir yn flynyddol yn cynnwys prif brifysgolion y DU a ledled

y byd. Mae'r gystadleuaeth yn cynnwys dylunio ac adeiladu awyren ddi-griw i gyflawni amcan dyngarol, megis dosbarthu cymorth i leoliad anghysbell. Dyma un o brif heriau Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol yn y sector awyrfod ers 2014.

Yn gynharach eleni, cododd y tîm OUFO gyfanswm gwych o £4,103, diolch i gymorth hael rhoddwyr drwy lwyfan ariannu torfol Y Brifysgol Agored, sef 'The OU Crowd'.

RHAGOR O WYBODAETH
www.teamoufo.co.uk

TRAWSNEWID BYWYDAU:

"Newidiodd addysg fy mywyd." "Doeddwn i byth yn credu y byddwn i'n mynd i'r brifysgol," "Rwy'n hyderus ynof i fy hun o'r diwedd," - dyma rai o'r negeseuon pwerus rydym yn eu cael gan ein myfyrwyr anhygoel.

Mae sicrhau bod addysg yn hygyrch i bawb bob amser wedi bod wrth wraidd cenhadaeth Y Brifysgol Agored a thrwy eich cymorth hael, gallwn barhau i ddarparu ysgoloriaethau i fyfyrwyr na fyddent fel arall yn cael y cyfle i astudio. Mae'r ysgoloriaethau hyn sy'n newid bywydau yn galluogi myfyrwyr i archwilio bydoedd newydd ac i weithio tuag at fywyd a dyfodol roeddent ond wedi breuddwydio amdanynt.

Mae pob ysgoloriaeth yn rhodd bwerus ac mae'n bleser gennym allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y ffordd y mae eich cymorth yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.



"Dyma oedd y ffordd orau o wella bywydau'r ddau ohonom"

Yn 2010, newidiodd bywyd Holly Harrod am byth. Cafodd gŵr Holly strôc ddifrifol a oedd wedi'i barlysu'n rhannol ac roedd bellach ond yn gallu defnyddio ychydig o eiriau. Gan wybod y byddai gan ei gŵr anableddau parhaol, rhoddodd Holly y gorau i'w swydd yn y gwasanaethau ariannol i ddod yn ofalwr llawn amser iddo.

"Mae bod yn ofalwr yn ynysig ac yn unig iawn," meddai Holly. "Mae'n achosi straen, mae'n waith caled ac yn feichus. Roedd y cyfle i ddychwelyd i astudio PhD gyda'r Brifysgol Agored yn wych. Mae wedi bod yn brofiad gwerth chweil ac yn ogystal â'm galluogi i adfer fy hunaniaeth, rwyf hefyd wedi gallu gwneud rhywbeth roeddwn wir yn hoffi ei wneud a datblygu gyrfa newydd sbon yn y dyfodol o bosibl.

"Mae hefyd wedi helpu fy ngŵr, am ei fod yn gweld cymaint rwyf wedi mwynhau astudio, ac nid yw'n teimlo bod ei anableddau wedi fy atal rhag cyflawni'r hyn roeddwn am ei wneud mwyach. Rwy'n gobeithio y gall Y Brifysgol Agored annog a chefnogi mwy o ofalwyr i astudio oherwydd, i mi, dyma oedd y ffordd orau bosibl o wella bywydau'r ddau ohonom."



Rhoi rhodd addysg i ofalwyr

Mae 6,000 o bobl bob dydd yn ymgymryd ag ymrwymiadau gofalu yn y DU. Mae'r bobl anhunanol hyn yn rhoi'r gorau i gymaint o bethau er mwyn gofalu am eu hanwyliaid. Gyda phrinder amser, arian a chymorth, mae'r syniad o addysg uwch yn aml yn teimlo fel breuddwyd amhosibl.

Dyna pam wnaethom lansio'r Gronfa Ysgoloriaethau Gofalwyr gyntaf erioed yn y DU ar ddechrau 2019 er mwyn sicrhau nad oes neb yn cael eu hepgor.

Mae eich ymateb i'r Gronfa wedi bod yn anhygoel yn barod. Dim ond drwy eich rhoddion hael a'ch cymorth parhaus y gallwn ddarparu ysgoloriaethau i'r gofalwyr gwerthfawr hyn. Hyd yma, rydych wedi ein helpu i godi cyfanswm gwych o £350,000, sy'n golygu y bydd o leiaf 17 o ofalwyr yn gallu astudio gyda ni.

Ar ran eich Prifysgol a phob bywyd rydych yn helpu i'w drawsnewid: diolch! Ni fyddem yn gallu gwneud hyn heboch chi.



**CEFNOGWCH FWY
O OFALWYR FEL HOLLY**

Evch i

giving.open.ac.uk

Ffoniwch

01908 655 044

UN YSGOLORIAETH AR Y TRO

Cefnogi ein cyn-filwyr

Mae'r Gronfa Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl – y cyntaf o'i math yn y DU – yn rhoi cyfle i'r rheini gafodd eu gwneud yn anabl yn ystod gwasanaeth milwrol i ail-lunio ei dyfodol drwy fanteisio ar addysg am ddim a chymorth anabledd parhaus.

Diolch i'ch cymorth chi, mae'n bleser gennym eich hysbysu y bydd mwy na 100 o gyn-filwyr yn cael budd drwy'r Gronfa. Mae'r rheini sydd ran o'r ffordd drwy gyrsiau eisoes yn gwneud cynnydd gwych ac yn edrych ymlaen at ddyfodol yr oedd llawer ohonynt yn credu na fyddai'n bosibl.

Er bod y pynciau y maent wedi'u dewis yn amrywio, mae nifer fawr o fyfyrwyr sydd ag anhwylder straen wedi trawma (PTSD) yn astudio seicoleg ac yn mynegi diddordeb mewn helpu eraill yn yr un sefyllfa â nhw eu hunain.

Diolch i haelioni rhoddwyr, gallwn barhau i gefnogi cyn-filwyr anabl fel y gallant ddechrau pennod nesaf eu bywydau.




Image © Crown Copyright

Adborth gan ein myfyrwyr sy'n gyn-filwyr

Mae deiliaid presennol Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl yn rhannu'r hyn y mae'r ysgoloriaeth yn ei olygu iddynt:

“ Fy ysgogiad yw cymhwysu a helpu cyn-filwyr eraill sydd wedi bod yn yr un sefyllfa â mi. ”

“ Gall llawdriniaethau a salwch dros y blynyddoedd wneud i chi deimlo'n isel iawn ac mae'n anodd meddwl am y dyfodol. Mae gen i rywbeth cadarn i ganolbwyntio arno bellach, mae gen i aseiniadau, felly mae'n rhaid i mi gynllunio ymlaen llaw. Mae'n rhoi ffocws i fywyd unwaith eto. ”

**RHOWCH RODD
NEU DYSGWCH FWY**

giving.open.ac.uk

Eich lle yn hanes Y Brifysgol Agored

Diolch i bawb sydd wedi rhoi yn ystod y flwyddyn hon yn dathlu ein Hanner Canmlwyddiant, ac i'r 7,000 o bobl sydd wedi dewis i'w haelioni gael ei gydnabod drwy osod tarian ar y cerflun **Coeden Ddysgu**.

Bydd y goeden drawiadol yn blaguro ar gampws Walton Hall. Caiff ei haddurno â miloedd o dariannau aur sy'n cynnwys enwau rhoddwyr sydd wedi cefnogi ein Cronfa Ysgoloriaethau Hanner Canmlwyddiant.

Comisiynwyd Clare McHugh, a elwir hefyd yn MissFire, sef artist, dylunydd a gof talentog sydd wedi'i lleoli yn Fforest y Ddena, i ddod â'r cerflun yn fyw. Bydd hi'n mynd ati i greu'r cerflun 22 troedfedd dros 15 wythnos a bydd yn barod i'w osod tuag at ddiwedd yr haf. Mae'r ymateb hyd yn hyn wedi bod mor wych, bu'n rhaid i MissFire ail-ddylunio elfennau o'r goeden er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys pob un o'r tariannau!



Clare McHugh, a elwir yn MissFire yn greadigol



**RHOI AC
YCHWANEGU EICH
TARIAN AT Y GOEDEN**

alumni.open.ac.uk/donate



**DILYNWCH
HYNT
MISSFIRE**

[instagram.com/missfiremetalartist](https://www.instagram.com/missfiremetalartist)

COFIO BYWYDAU A GWADDOL

Yn gynharach yr haf hwn, ymunodd cyn-fyfyrwyr, cefnogwyr a theuluoedd â ni yn Nathliad Blynyddol Yr Ardd Waddol i anrhydeddu ac i gofio'r rheini sydd wedi marw yn ddiweddar ac sydd wedi gadael rhodd i'r Brifysgol.

Mae'r ardd brydferth yn dystiolaeth weledol o werthfawrogiad i'n rhoddwyr a'u teuluoedd.



Yn ystod y digwyddiad eleni, gwnaethom gofio 26 o bobl a oedd wedi cynnwys y Brifysgol yn eu Hewyllys yn garedig iawn. Roedd nifer fawr ohonynt yn gyn-fyfyrwyr ac 'arloeswyr', a fu'n astudio gyda ni yn ystod cyfnod cynharaf Y Brifysgol Agored. Mae pob un ohonynt wedi arwain y ffordd i genedlaethau o fyfyrwyr i ddod.

Yn eu plith roedd Jennifer Mary Booth. Hi oedd un o fyfyrwyr cynharaf Y Brifysgol Agored, a ddechreuodd astudio gyda'r Brifysgol yn 1975. Aeth Jennifer ymlaen i astudio cymaint â 25 o fodiwlau dros 30 mlynedd a chwblhaodd bedair gradd gyda'r Brifysgol Agored. Bydd ei brwdfrydedd dros ddysgu yn yn parhau yn y rheini sy'n cael budd o'i haelioni.

Caiff Jennifer ei chofio yn ein gardd a bydd ei rhodd, ynghyd â rhoddion y rhoddwyr gwych eraill, yn galluogi mwy o fyfyrwyr i fanteisio ar addysg sy'n newid bywydau.

Y pŵer o ddweud 'ie'

Drwy ddweud 'ie' i roi rhodd i'r Brifysgol Agored yn eich Ewyllys, byddwch yn newid bywydau myfyrwyr y dyfodol, na fyddent fel arall wedi cael y cyfle i fanteisio ar addysg uwch.



**DYSGWCH FWY
AM ROI RHODD**

Ewch i giving@open.ac.uk
Ffoniwch **01908 659141**

CYSYLLTWCH Â NI



**RHOWCH RODD ER MWYN HELPU
I AGOR DRYSAU'R DYFODOL**

Ewch i giving.open.ac.uk
Ffoniwch **01908 655 044**



[/theopenuniversity](https://www.facebook.com/theopenuniversity)



[@theopenuniversity](https://www.instagram.com/theopenuniversity)



[@OpenUniversity](https://twitter.com/OpenUniversity)



[The Open University](https://www.linkedin.com/company/the-open-university)

Hoffem glywed gennych



**YMHOLIADAU
CYFFREDINOL**

E-bostiwch giving@open.ac.uk
Ffoniwch **01908 655 044**

Ysgrifennu **The Open University
Development Office
Walton Hall
Milton Keynes
MK7 6AA**